PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ordinhad 11

# Datgan Buddiannau

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 11
# Datgan Buddiannau

1. Mae'r Ordinhad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd neu unrhyw bwyllgor ohonynt sydd â budd personol, ariannol neu fuddiol mewn unrhyw fater a drafodir ddatgelu'r budd hwnnw.

2. Rhaid i unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd neu unrhyw bwyllgor ohonynt sydd wedi datgelu budd mewn unrhyw fater dan ystyriaeth dynnu'n ôl o unrhyw drafodaeth lle ystyrir y mater hwnnw trwy gydol y drafodaeth ar y mater.

3. Ni ystyrir bod gan unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd nac unrhyw bwyllgor ohonynt sy'n aelod o staff y brifysgol fudd at ddibenion yr Ordinhad hwn yn rhinwedd ei swydd yn un o aelodau staff y brifysgol.

4. Ni ystyrir bod gan unrhyw aelod o'r Llys, y Cyngor, y Senedd nac unrhyw bwyllgor ohonynt sydd wedi cofrestru'n fyfyriwr yn y Brifysgol fudd at ddibenion yr Ordinhad hwn yn rhinwedd hynny.

5. Ni fydd unrhyw benderfyniad a wneir yn briodol gan y Cyngor, y Senedd nac unrhyw bwyllgor ohonynt yn annilys oherwydd methiant aelod i ddatgan budd yn y cyfarfod y gwnaed y penderfyniad ynddo.

6. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cadw Cofrestr Buddiannau aelodau'r Cyngor, aelodau'r Bwrdd Gweithredol, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol ac eraill mewn swyddi awdurdod priodol, a fydd ar gael i'w harchwilio ar unrhyw adeg resymol.

7. Bydd y gofrestr hon yn cynnwys gwybodaeth am benodiadau, swydd cyfarwyddwr cwmni, swyddi cyhoeddus, ac unrhyw fuddiannau teuluol perthnasol, ond ni fydd yn cofnodi unrhyw wybodaeth ynglŷn â chyfranddaliadau neu fuddsoddiadau eraill a allai fod gan aelodau'r Cyngor, uwch swyddogion neu eu teuluoedd.

8. Rhaid i bob aelod newydd o'r Cyngor ddarparu datganiad o wybodaeth i Ysgrifennydd y Cyngor i'w gynnwys yn y Gofrestr cyn pen tri mis ar ôl dechrau eu cyfnod yn aelod o'r Cyngor. Rhaid i Uwch Swyddogion gyflenwi'r wybodaeth sy'n ofynnol cyn pen tri mis ar ôl ymgymryd â'u swyddi fel uwch swyddogion y Brifysgol.

9. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn gofyn i'r rhai a restrir o dan 6 uchod adolygu eu cofnodion yn y Gofrestr unwaith pob blwyddyn academaidd.